Crynodeb o'r Ymatebion i "Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Ffaith yng Nghymru"
Cyfnod ymgynghori Rhagfyr 2006 – Mawrth 2007

Derbyniom gyfanswm o 32 o ymatebion, a ddadansoddwyd er mwyn darganfod y themâu allweddol sy'n ymddangos. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y prif bwyntiau sy'n cynrychioli barn yr atebwyr i'r ymgynghoriad.

Ar y cyfan, roedd atebwyr yn croesawi'r cyfle i ymgynghori ar y papur polisi ar y cyd dros Gymru, ac amlinellwyd rhai pryderon allweddol yn ymwneud â gweithredu'r polisi a osodwyd yn Strategaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (GCC). Yn gyffredinol, seiliwyd y pryderon ar ddargyfeiriad y polisi yng Nghymru oddi wrth yr un yn Lloegr, yn neilltuol yr ethos yn natblygiad gwasanaethau cyhoeddus sy'n dibynnu ar gydweithio yn hytrach na chystadlu, a'r dull sy'n cael ei arwain gan Gynulliad Cymru o gynnwys y trydydd sector wrth sicrhau polisi sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion a datblygiad gwasanaethau.

Cafwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan nifer o fathau gwahanol o sefydliadau:

a- Awdurdodau Lleol (6 ymateb)
b- Cyrff eraill a ariannir yn gyhoeddus (6 ymateb)
c- Cleientiaid neu grwpiau sy'n cynrychioli cleientiaid (2 ymateb)
d- Cyfreithwyr (2 ymateb)
e- Asiantaethau dielw (8 ymateb)
f- Grwpiau ambarél (7 ymateb)
g- Arianwyr (1)

Pan ddefnyddir canrannau atebwyr yn y crynodeb am bob cwestiwn, maent yn cyfeirio at ganran y rhai a ymatebodd i'r pwynt neilltuol hwnnw, fel cyfran o'r holl ymatebion i'r cwestiwn ymgynghorol unigol.

Mae canrannau a ddefnyddir ym 'Materion Allweddol' ar dudalennau 3 a 6 yn cyfeirio at ganran y rhai a oedd yn datgan pwynt neilltuol fel cyfran o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ei gyfanrwydd. Mae'r amrywiant hwn mewn dull yn codi oherwydd bod y pwyntiau hyn y tu hwnt i ffocws yr ymgynghoriad.

C.1. Mae'r ddogfen yn cynnig cyfarfod blynyddol i ddarparwyr gwasanaeth trwy Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru. A ydych yn cytuno â'r dull hwn? Os nad ydych, sut gall y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (CGC) / Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ymgynghori'n fwy effeithiol â'r darparwyr gwasanaeth, a pha mor aml?

Roedd ymatebion yn canolbwyntio ar y canlynol:

1. Amlder arfaethedig cyfarfodydd gyda Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru. Roedd 66% o'r atebwyr a ymatebodd i'r pwynt hwn yn ystyried cyfarfod blynyddol yn annigonol ac yn awgrymu cyfarfodydd chwarterol neu ddwywaith y flwyddyn.

2. Y model ar gyfer gweithio'n agos gyda darparwyr gwasanaeth. Dywedodd nifer o sefydliadau (24%), o bob math, y dylid sefydlu peirianweithiau amgen ond cyflenwol ar gyfer ymgynghori â darparwyr. Y farn fwyaf cyffredin oedd bod gweithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau darparu yn bwysig a dylai Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru fod yn un peirianwaith yn unig i'w ddefnyddio at y pwrpas hwn.

3. Cyfansoddiad a swyddogaeth Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru. Cafwyd awgrymiadau gan sawl sefydliad am aelodau ychwanegol ar gyfer Fforwm Cenedlaethol GCC, er mwyn sicrhau ei fod yn cynrychioli buddiannau yng Nghymru. Awgrymodd atebwyr eraill y dylid alinio'i raglen waith gyda rhaglen waith Pwyllgor Cymru er mwyn hwyluso cyfrannu effeithiol. Gofynnwyd am fwy o eglurder yn y pwrpas o weithio'n agos gyda Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru.

4. Dull cynhwysol Llywodraeth Cynulliad Cymru o weithio'n agos gyda'r trydydd sector wrth ddatblygu polisi a gwasanaeth yng Nghymru, a'r arweiniad sy'n cael ei roi gan Swyddfa Masnach y Llywodraeth (SMLl) ynglŷn â chomisiynu a chaffael. Roedd cefnogaeth gref dros wneud darparwyr yn rhanddeiliaid cyfartal wrth ddatblygu gwasanaethau cynghori yng Nghymru, yn unol ag arfer Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi'i ddatgan yn adroddiad Beecham a 'Creu'r Cysylltiadau', yn ogystal ag arweiniad sydd wedi'i osod gan SMLl.

5. Dulliau ychwanegol o ymgynghori'n llwyddiannus â darparwyr. Trafododd nifer o atebwyr beirianweithiau amgen ar gyfer ymgynghori â darparwyr. Roedd cefnogaeth dros gynyddu defnydd technoleg, gan ddefnyddio e-bost a mannau ar wefannau ar gyfer aelodau er mwyn cyfathrebu ar faterion o dan sylw a rhannu gwybodaeth.

6. Cefnogaeth a chynaladwyedd Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru. Roedd 14% o'r atebwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ddarparu cefnogaeth i Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru er mwyn i'w alluogi i ymgynghori'n rheolaidd ac mewn modd perthnasol.

Mewn ymateb i'r barnau a nodwyd a chan gydnabod yr amgylchedd polisi yng Nghymru, mae darparwyr gwasanaethau nawr yn cael eu cynrychioli ar Bwyllgor Cymru'r GCC trwy aelodaeth Cadeirydd Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru. Yn ogystal, mae Pwyllgor Cymru wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda darparwyr gwasanaeth rheng flaen a chyrff cynrychiadol ar sail flynyddol o leiaf.

C.2 Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cynnig sefydlu is-grŵp ymgynghori â chleientiaid. Os ydych yn cytuno â'r dull hwn, sut y gall yr is- grŵp ddynodi anghenion cwsmeriaid ac ymgynghori'n effeithiol â defnyddwyr? Pa sefydliadau ddylai gael eu cynrychioli? Os nad ydych yn cytuno, ym mha ffordd arall y gall y CGC/LICC ddynodi anghenion cleientiaid ac ymgynghori â defnyddwyr?

1. Roedd 65% o atebwyr a oedd yn datgan blaenoriaeth yn cytuno â'r cynnig i sefydlu is-grŵp ymgynghori â chleientiaid, yn amodol ar gynnwys ystod eang o randdeiliaid o'r sectorau gwirfoddol, statudol a thrydyddol. Awgrymwyd y sefydliadau a'r meysydd ffocws penodol gan gleientiaid canlynol:
   - Pobl iau; pobl hŷn; defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl a gofalwyr; pobl lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; yr iaith Gymraeg; Shelter Cymru; Cyngor Ar Bopeth Cymru; Comisiynydd Plant Cymru; fforymau darparwyr GCC; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cyngor Defnyddwyr Cymru.

2. Yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd, er mwyn i'r broses hon fod yn ystyrlon, gellir ond ei defnyddio fel un peirianwaith yn unig ar gyfer nodi barn cleientiaid. Roedd 95% o'r atebwyr yn awgrymu cynnal gweithgareddau cyflenwol er mwyn sefydlu mewnbwn gan gleientiaid yn y broses gynllunio. Roedd yr awgrymiadau'n amrywiol ac yn cynnwys gweithio'n agos gyda darparwyr rheng flaen er mwyn hwyluso'r broses o ymgynghori gyda chleientiaid, gan ddefnyddio ymchwil a data penodol Cymreig, a gweithio'n agos trwy brosesau gweithio gyda chleientiaid sydd eisoes yn bodoli mewn llywodraeth leol.

3. Fel pwynt ehangach, roedd pryder y byddai'n rhaid, er mwyn cydymffurfio ag ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i osod dinasyddion wrth galon gwasanaethau cyhoeddus, i waith arfaethedig is-grŵp ymwneud yn uniongyrchol â buddiannau dinasyddion fod mewn lle ar Bwyllgor Cymru. Tanlinellodd nifer o atebwyr (8%) na fyddai'r drefn ail haen arfaethedig yn ennill cefnogaeth sefydliadau sy'n ymrwymo i ddull Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Fel dull er mwyn sicrhau bod dinasyddion wrth galon gwasanaethau cyhoeddus, mae cynigion cychwynnol ar gyfer sefydlu is-grŵp cleientiaid Pwyllgor Cymru wedi'u hadolygu. Cytunwyd bod cynrychioli barn cleientiaid yn bwysig trwy holl strwythurau trefn lywodraethol y GCC. Felly, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi cael gwahoddiad i ymuno â Phwyllgor Cymru er mwyn

hwyluso a chynrychioli barn cleientiaid. Yn ogystal mae Pwyllgor Cymru hefyd yn ymrwymo i gyfarfod yn flynyddol â chleientiaid a'u cyrff cynrychiadol. Cydnabyddir bod gan ddarparwyr gwasanaeth swyddogaeth allweddol wrth ddarparu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth i Bwyllgor Cymru a bydd cynrychiolaeth trwy Gadeirydd Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru yn hwyluso'r mewnbwn hwn.

C.3. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cynnig nifer o strwythurau er mwyn darparu Canolfannau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CLAC) a Rhwydweithiau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CLAN) yng Nghymru:

- **Un CLAC/CLAN i Gymru gyfan;**
- **CLAC/CLAN rhanbarthol; neu**
- **Dau ar hugain CLAC/CLAN gan adlewyrchu ffiniau awdurdodau lleol.**

Pa un fyddech chi'n ei ystyried yn fwyaf addas at anghenion Cymru a pham?

Ar y cyfan, roedd 37% o atebwyr a oedd wedi datgan blaenoriaeth wedi dewis strwythur rhanbarthol yng Nghymru, ac roedd 20% wedi dewis strwythur a oedd yn adlewyrchu ardaloedd awdurdodau lleol. Roedd 10% o atebwyr yn ystyried y rhanbarthau sydd wedi'u gosod yng Nghynllun Gofodol Cymru yn fwyaf addas, ond roedd atebwyr eraill yn teimlo y dylid nodi rhanbarthau ar ôl gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Awgrymwyd strwythur rhanbarthol amgen o'r wyth awdurdod unedol blaenorol (1974). Roedd nifer o atebwyr yn ystyried datblygu CLACs yn anaddas i Gymru oherwydd graddfa a daearyddiaeth ac roedd 16% yn barnu mai CLANs oedd y strwythur mwyaf addas ar gyfer darparu gwasanaeth.

Materion allweddol a nodwyd

Roedd cyfran arwyddocaol o'r atebwyr wedi tanlinellu rhai materion a cheisiadau allweddol i'w trafod yn y papur terfynol. Oherwydd natur y materion a nodwyd, nid oedd atebwyr yn teimlo'u bod yn gallu darparu ymateb i'r cwestiwn penodol a ofynnwyd. Roedd y materion a nodwyd wedi'u rhannu i 3 phrif gategori.

1. Amgylchedd polisi yng Nghymru

Cyfeiriodd 26% o atebwyr yn gadarn at y ffaith bod yr amgylchedd polisi yng Nghymru yn cael ei yrru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a'i fod wedi'i hysbysu gan adolygiad Syr Jeremy Beecham – Ar Draws Ffiniau. Mae ymateb y Cynulliad, Cyflawni Ar Draws Ffiniau, a'i strategaeth, 'Creu'r Cysylltiadau', wedi'u hanelu at fodel wedi'i ganoli ar ddinasyddion, wedi'i danategu gan bartneriaethau ecwitïol a darpariaeth gwasanaeth wedi'i seilio ar gydweithio yn hytrach na chystadleuaeth. Roedd adroddiad Beecham yn herio'r dull Seisnig o gystadleuaeth, cystadleuoldeb a phrofi'r farchnad fel modd i wella gwasanaethau. Yn ogystal, roedd yr adolygiad yn datgan y byddai ad-drefnu strwythurol mawr yn wrthdyniad rhag y busnes sylfaenol o wella gwasanaethau.

Oherwydd y gwrthdaro rhwng dulliau a gynigiwyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, a'r rhai gan wasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru, methodd yr atebwyr hyn â datgan barn ar bwyntiau penodol CLACs a CLANs. Yn ogystal, gofynnodd 10% o atebwyr i arianwyr cyhoeddus yng Nghymru beidio â chefnogi cynigion y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol fel y maen nhw. Gofynnodd nifer o atebwyr am symud ymlaen â dull comisiynu amgen yng Nghymru, wedi'i seilio ar gydweithio a phartneriaeth.

2. Cynllunio gwasanaeth

Roedd 29% o atebwyr wedi datgan y dylid cynnwys asiantaethau cynghori a chymunedau wrth gynllunio gwasanaeth, oherwydd teimlad na fyddai dull o'r top i lawr yn adlewyrchu anghenion pobl leol.

3. Gwrthdaro buddiannau

Roedd 26% o atebwyr yn ystyried y byddai gwrthdaro pe byddai awdurdodau lleol yn gomisiynwyr ar y cyd, gyda'u swyddogaeth fel parti gwrthwynebu, fel darparwyr gwasanaethau cynghori ac fel arianwyr. Teimlwyd y byddai angen cyfres o ddulliau diogelu er mwyn lleihau'r risg i ddarpariaeth

gwasanaeth. Roedd y rhan fwyaf o atebwyr yn teimlo y byddai'n rhaid i'r dulliau diogelu osgoi cau darparwyr allan oherwydd eu bod yn ormod o her i awdurdodau lleol ac osgoi cynllunio gwasanaeth nad yw'n berthnasol i flaenoriaethau gwleidyddol lleol.

4. Pwyntiau eraill

CLANs

Fel y nodwyd uchod, roedd llawer yn ystyried CLANs fel y model darparu gwasanaeth mwyaf addas i Gymru. Ystyriwyd ei fod yn bwysig hefyd bod Gwasanaeth Cefnogaeth Arbenigol Cymru'n cefnogi CLANs, er mwyn cynnal darpariaeth o ansawdd uchel.

Risg / Cynlluniau Peilot

Gofynnodd nifer fach o atebwyr am gynnal dadansoddiad risg annibynnol ar effaith modelau darpariaeth rhanbarthol neu genedlaethol yng Nghymru. Awgrym arall oedd cynnal gwaith datblygu gydag awdurdodau lleol er mwyn arddangos model gwahanol o gomisiynu gwasanaethau. Ystyriwyd ei fod yn bwysig rhannu gyda rhanddeiliad y cyfan a ddysgwyd gan gynlluniau peilot yn Lloegr.

Cytunwyd mai strwythur darparu gwasanaeth rhanbarthol fyddai'r model mwyaf addas yng Nghymru, ac o ganlyniad mae wyth ardal caffael wedi'u nodi. Bydd ardaloedd hyn yn parhau i fod yn hyblyg a byddant yn cael eu penderfynu'n derfynol wedi trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a darpar gomisiynwyr ar y cyd, gan gymryd i ystyriaeth beth fydd yn darparu'r canlyniad gorau posibl i bobl Cymru. Mae hefyd yn ymddangos yn debygol y bydd y model darpariaeth mwyaf addas yng Nghymru yn gweithredu trwy'r Rhwydweithiau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, ond bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud dim ond ar ôl trafodaethau ym mhob ardal caffael.

C.4. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o unrhyw arfer da cyfredol ym meysydd comisiynu a darparu gwasanaeth ar y cyd yng Nghymru? Rhowch fanylion.

Roedd y gyfran uchaf o atebion i'r cwestiwn hwn yn tanlinellu enghreifftiau o arfer da ar gyfer darparu gwasanaeth yng Nghymru, gyda phwyslais mawr ar lwyddiant yn deillio o gydweithio. Tanlinellodd 25% o atebwyr arfer da wrth gomisiynu ar y cyd, ac o'r rhan roedd 50% ohonynt yn ymwneud â chomisiynu ar y cyd ag awdurdod lleol.

1. Comisiynu ar y Cyd

Yr enghraifft a nodwyd amlaf oedd y Gyllideb Menter Partneriaeth, a oedd yn cynnwys adnodd cyfun a oedd ar gael i'r holl sectorau gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr. Ystyriwyd yr enghraifft hon yn llwyddiant gan sefydliadau ariannu a darparu.

Tanlinellwyd 'Gwerth Cymru' oherwydd ei bwrpas penodol yn ymwneud â chefnogaeth caffael ac am ei fod yn annog gwelliant ar draws y sector cyhoeddus. Darparwyd enghraifft o drefniant cydweithiol penodol rhwng awdurdodau lleol mewn perthynas â darpariaeth cyngor cyfreithiol a chefnogaeth yn ymwneud â gofal plant.

Roedd rhai enghreifftiau o gomisiynu ar y cyd yn cynnwys y canlynol:

- Awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yn llwyddo darparu gwasanaeth ledled Cymru gyfan – gwasanaethau targedu partneriaeth iechyd meddwl ar gyfer plant mewn gofal;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol – rhwydwaith annibynnol o wasanaethau cyngor ar dai ledled Cymru;
- Bwrdd Iechyd Lleol, awdurdod lleol a'r Cyngor Henoed (gogledd ddwyrain Cymru) – prosiect iechyd ataliol wedi'i symud yn ddiweddar o ariannu prosiect at Gytundeb Lefel Gwasanaeth tair blynedd.

2. Darparu Gwasanaeth

Gellir crynhoi llawer o enghreifftiau'r atebwyr o fewn y themâu canlynol:

Defnyddio Strwythurau Sydd Eisoes yn Bodoli
Y model darparu gwasanaeth a danlinellwyd gan y rhan fwyaf o atebwyr (15%) fel enghraifft o arfer da yw prosiect Cyngor Gwell, Iechyd Gwell. Mae'r prosiect hwn yn darparu cyngor ar fudd-daliadau mewn lleoliadau gofal iechyd sylfaenol. Mae'r prosiect yn cael ei reoli'n ganolig ac mae'n gosod safonau perfformiad sy'n ategu strwythurau sydd eisoes yn bodoli. Enghraifft arall o ddefnydd effeithiol strwythurau sydd eisoes yn bodoli yw'r cysylltiadau rhwng gwasanaethau a thimau datblygu cymunedol (Cymunedau yn Gyntaf) yng Nghymru, sy'n gweithio yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Allgyrch
Awgrymodd nifer fach o atebwyr bod sesiynau allgyrch yn fodel da o ddarparu gwasanaeth, gan ateb gofynion am gyngor ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell, a gwelwyd eu bod yn fwyaf effeithiol pan roeddent yn cysylltu cyfreithwyr a sefydliadau dielw â'i gilydd.

Cyfeirio
Fe'i hawgrymwyd fel peirianwaith effeithiol dros ben er mwyn hwyluso cyfeiriadau rhyngasiantaethol, yn enwedig ar draws ffiniau. Darparwyd enghraifft o achos ohono'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Darparodd un atebwr fanylion swydd weinyddu ran-amser a ariannwyd a weinyddodd beirianwaith cyfeirio effeithiol ledled y sir.

Brysbennu
Nodwyd brysbennu cyngor fel model sydd ar fin cael ei arbrofi yn Sir Gaerfyrddin. Ystyriwyd meddygfeydd a llyfrgelloedd fel ffocws tebygol i'r cynllun arbrawf.

Yr Iaith Gymraeg
Nodwyd argaeledd gwasanaethau cynghori wyneb-yn-wyneb ac ar y ffôn yn yr iaith Gymraeg fel arfer gorau ym mhob agwedd o ddarparu gwasanaeth. Nododd atebwyr fod absenoldeb gwasanaethau yn yr iaith Gymraeg yn rhwystr i fynediad mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru.

Rhaid cydnabod fod yna lawer o enghreifftiau o arfer da yng Nghymru yn ymwneud â chomisiynu ar y cyd a darparu gwasanaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn paratoi cyngor ar gyfuno trefniadau a fydd yn darparu cymorth a chefnogaeth wrth ddatblygu partneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau gwell yn unol â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol neu'r rhai sy'n cael eu hyrwyddo gan Gytundebau Gwasanaeth Lleol. Bydd y cyngor yn cynnig enghreifftiau ymarferol a bydd yn edrych ar rai o'r cwestiynau allweddol sy'n codi wrth ddatblygu cytundebau partneriaeth. Wrth i Wasanaethau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ledu dros Gymru, bydd y cyngor hwn ac enghreifftiau cyfredol a blaenorol o lwyddiannau'n cael eu defnyddio er mwyn hysbysu a gwella datblygiad y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

C.5. A oes yna ran-ddeiliaid eraill y dylid eu cynnwys?

Roedd 65% o atebwyr yn ystyried y rhestr arfaethedig o ran-ddeiliaid yn rhy gyfyng, a darparwyd rhestrau o sefydliadau neu fudiadau buddiannau cleient penodol i'w cynnwys.

1. Rhan-ddeiliaid Ychwanegol
Roedd cefnogaeth dros gynnwys y rhan-ddeiliaid ychwanegol neu fudiadau buddiannau cleient penodol canlynol yn cynnwys (yn nhrefn y lefel uchaf o gefnogaeth):

- Advice UK
- Stonewall Cymru
- Awdurdodau Iechyd (Byrddau ac Ymddiriedolaethau)
- Cyngor yr Henoed Cymru
- Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Y Gwasanaeth Tribiwnlys
- Cymorth i Fenywod
- Cyswllt Defnyddwyr Cymru

- Dial UK
- Ffederasiwn Canolfannau Cyfraith
- Cynghrair Gwasanaethau Cynghori
- Uned Data Llywodraeth Leol
- Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru
- NCH Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Grwpiau pobl ifanc
- Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor
- Cymorth i'r Henoed
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chymrodeddu
- Un Llais Cymru
- Undebau llafur
- Gwasanaethau Safonau Masnach
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf
- Grŵp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol
- Cynghorau cydraddoldeb hiliol

2. Gweithio'n Agos â Rhan-ddeiliaid

Awgrymodd 25% o atebwyr ran-ddeiliaid ychwanegol i'w cynnwys yn adran 'Deall Angen' y tabl. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- Advice UK
- Cynrychiolwyr:
    - Pobl ifanc
    - Pobl sy'n dioddef trais yn y cartref
    - Pobl anabl
    - Pobl ddu ac ethnig lleiafrifol
    - Ffoaduriaid
    - Pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol
    - Pobl ddigartref
    - Pobl hŷn
    - Sipsiwn a theithwyr
- Cyngor yr Henoed Cymru
- Cynghrair Gwasanaethau Cynghori
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Shelter Cymru

Awgrymwyd Cymdeithas y Cyfreithwyr fel rhan-ddeiliad ychwanegol yn y tabl ar Addysg a Hawliau.

Awgrymodd un atebwr fod y tabl gweithio'n agos â rhanddeilieid arfaethedig yn amherthnasol ac yn darparu strwythur ffug ar gyfer dynodi gweithgaredd. Credwyd bod gan ran-ddeiliaid sydd eisoes yn bodoli a rhan-ddeiliaid arfaethedig fuddiannau a oedd yn lledu i feysydd gweithgareddau.

Credai 15% o atebwyr y dylid egluro neu wahanu'r term 'ymarferwyr cyfreithiol' er mwyn dangos ei fod yn cynnwys asiantaethau cynghori a chyfreithwyr. Holwyd ynglŷn â'r broses o weithio'n agos gydag ymarferwyr cyfreithiol oherwydd nid yw'r papur yn amlinellu sut y gellir cyflawni hyn ac roedd yn cael ei weld yn hanfodol na ddylid ystyried grwpiau ambarél, fel mudiadau sydd ddim yn darparu cyngor, yn llais dros ymarferwyr cyfreithiol.

O ganlyniad i'r broses ymgynghori, adolygwyd y dull o gynnwys rhan-ddeiliaid. Gellir cydnabod y bydd gan nifer eang o ran-ddeiliaid allweddol ddiddordeb yn natblygiad y GCC. Byddwn yn mynd ati i gynnwys rhan-ddeiliaid sydd â diddordeb yn natblygiad cyfredol y GCC yn ôl pob achos unigol heb geisio nodi neu amlinellu unrhyw sefydliadau neu weithgareddau o'r fath o flaen llaw.

Materion allweddol y tu hwnt i gwestiynau'r ymgynghoriad

Trefn Lywodraethol
Darparodd 81% o atebwyr sylwadau ychwanegol yn ymwneud yn benodol â threfn lywodraethol y GCC. Roedd y rhain yn canolbwyntio'n bennaf ar Bwyllgor Cymru'r GCC. Gellir rhannu'r sylwadau hyn rhwng dwy thema, Aelodaeth a Swyddogaeth.

1. Aelodaeth

Cynrychiolaeth ar ran y Sector Gwirfoddol a Darparwyr
Nododd 30% o atebwyr na fyddai'r Pwyllgor yn effeithiol yng Nghymru yn absenoldeb cynrychiolaeth ar ran y sector gwirfoddol a darparwyr, a fyddai'n gallu darparu polisi rheng flaen ac arbenigedd datblygu gwasanaeth.

Tanlinellodd adborth gan Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru, sef y grŵp arfaethedig yn y drefn lywodraethol a fydd yn darparu'r peirianwaith ar gyfer gweithio'n agos â darparwyr, broblemau a nodwyd. Nid oedd yn credu mai dyma'r ffurf fwyaf effeithiol o weithio, oherwydd bod y cynnig wedi'i seilio ar y tybiaethau anghywir. Tanlinellodd y Fforwm nad oedd yn cynnwys sefydliadau darparu'n unig ac mai dim ond rhan o orchwyl sefydliadau di-elw yw cytundebau'r CGC. Ystyriwyd ei fod yn bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gydnabod gorchwyl ehangach y Fforwm Cenedlaethol wrth ddarparu gwasanaethau cynghori, a bod peirianwaith ar wahân ar gyfer ymgynghori â darparwyr wedi'i seilio ar hyn.

Ffocws Cleientiaid
Roedd 23% o atebwyr yn teimlo y dylid newid cydbwysedd yr aelodaeth er mwyn sicrhau mai buddiannau'r dinesydd yw'r peth pwysicaf. Nododd atebwyr fod yr aelodaeth bron i gyd yn y sector cyhoeddus, ac eithrio un sefydliad. Nid oedd yna lawer o hyder y byddai gan y Pwyllgor yn ei ffurf bresennol y gallu i roi'r cwsmer o flaen gwasanaethau cyhoeddus.

Gwrthdaro Buddiannau
Roedd atebwyr yn cydnabod yr ymresymiad a amlinellwyd yn y papur ynglŷn â pham y cafodd cynrychiolwyr darparwyr eu heithrio o Bwyllgor Cymru. Ond roedd y mwyafrif wedi ailddatgan y safbwynt cyffredin yng Nghymru o reoli gwrthdaro o dan yr amgylchiadau hyn yn hytrach na'i osgoi.

Aelodau Ychwanegol
Yn ogystal â'r safbwyntiau sydd wedi'u datgan uchod, awgrymodd un atebwr, oherwydd swyddogaeth y farnwriaeth yn y GCC, y gellir ychwanegu gwerth trwy gael barnwr cylchdaith profiadol yn aelod o'r Pwyllgor.

Awgrymwyd mudiadau ambarél fel cyrff a fyddai'n gallu cynrychioli darparu ymofynwyr am gyngor.

2. Swyddogaeth
Darparodd 13% o atebwyr sylwadau yn ymwneud â swyddogaeth y Pwyllgor. Un farn oedd bod swyddogaeth, ac yn ei dro aelodaeth, y Pwyllgor yn aneglur. Roedd ansicrwydd ynglŷn â'r rôl gomisiynu a fyddai ganddo. Holwyd ynglŷn â manylion gwaith y Pwyllgor gyda Fforwm Cenedlaethol GCC Cymru. Gofynnwyd am fwy o eglurhad mewn perthynas â'r holl faterion hyn.

Cafwyd un awgrym am gael aelod enwebedig o'r Pwyllgor i gysylltu'n benodol ar faterion yn ymwneud â darparwyr a fyddai'n deillio o'r Pwyllgor a'r Is-grŵp Cleientiaid. Teimlwyd y byddai'r dull hwn o weithio'n caniatáu darparwyr i drafod materion gydag aelod o'r Pwyllgor heb orfod dibynnu ar gyfarfod blynyddol. Ystyriwyd ei fod yn bwysig i'r Pwyllgor weithio'n agos â grwpiau lleol a byddai cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor ledled Cymru'n hwyluso'r broses hon.

Amgylchedd Polisi yng Nghymru
Codwyd nifer o bwyntiau gan atebwyr o dan Gwestiwn 3, gan danlinellu'r amrywiant mewn dulliau wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal, cwestiynodd 13% o atebwyr sut y gellir cysoni'r ddogfen yn ôl adolygiad Beecham a'r agwedd gydweithredol tuag at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Nodwyd y bydd y pwerau deddfwriaethol newydd sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn golygu her ychwanegol i ddarparwyr gwasanaethau yng Nghymru yn y dyfodol. Barn gyffredinol yr atebwyr oedd y dylid manteisio ar y berthynas agos ac adeiladol unigryw sy'n bodoli rhwng gwleidyddion, awdurdodau lleol a darparwyr, oherwydd nid yw'r agwedd hon yn bodoli yn Lloegr.

Y Sector Trydyddol
Nodwyd y meysydd allweddol canlynol o wrthdaro mewn perthynas â'r sector trydyddol: ymrwymiad yng Nghymru i'r sector trydyddol siarad lan ar ran dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau ar bob lefel darpariaeth gwasanaeth; ei swyddogaeth wrth ddatblygu rôl ehangach fel eiriolwyr dinasyddion ac fel darparwyr arbenigedd polisi a datblygu gwasanaeth; a datblygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaeth ac economi sy'n gynyddol gymysg.

Darparu Gwasanaethau Lleol
Fel nodwyd o dan Gwestiwn 3 - roedd pryder ynglŷn â'r dulliau arfaethedig ar gyfer comisiynu gwasanaethau. Tanlinellodd atebwyr weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y papur polisi, sy'n codi'r pwynt y gellir gwella darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru trwy fwy o gydweithio rhwng darparwyr er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy, ymatebol, o'r ansawdd uchaf, yn hytrach na thrwy fwy o gystadlu ymhlith darparwyr. Atgyfnerthodd adolygiad Beecham y weledigaeth hon a chododd amheuon am ad-drefnu strwythurol mawr fel gwrthdyniad rhag gwella gwasanaethau.

Cynghori dros y Ffôn
Roedd 10% o atebwyr yn cefnogi cynlluniau ar gyfer ehangu gwasanaethau cynghori dros y ffôn trwy'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol Uniongyrchol (GCCU).

Codwyd rhai pryderon ychwanegol gan 23% o atebwyr. Roedd y rhain yn cynnwys cais am ymrwymiad i ddiogelu lefel cyfredol darpariaeth wyneb-yn-wyneb, oherwydd ni theimlwyd ei fod er buddiannau'r cleient i ehangu GCCU ar draul cynghori wyneb-yn-wyneb. Pwysleisiwyd y gall hyn waethygu amddifadedd cymdeithasol trwy ganolbwyntio ar bobl dlawd dinesig neu grynoadau o amddifadedd ac esgeuluso unigolion sydd mewn angen go iawn.

Mynegwyd pryderon ynghylch yr estyniad, yn enwedig yn dilyn ymchwil a ddangosodd fod pobl ifanc yn cael anawsterau wrth drafod eu problemau trwy'r cyfrwng hwn ac y gallai gwasanaethau ar gyfer y cleientiaid hyn ddirywio. Nodwyd hefyd bod defnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl yn grŵp hawdd ei niweidio o ganlyniad i'r estyniad. Awgrymwyd y dylid cael dull cyfeirio go iawn rhwng darparwyr a'r gwasanaeth cyfreithiol cymunedol.

Darparu Cyngor trwy Gyfrwng y Gymraeg
Amlygodd 10% o ymatebwyr y gofyn am ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru. Nodwyd poblogaeth gynyddol o siaradwyr Cymraeg a bydd hyn yn arwain at fwy o alw.

Cyd-gomisiynu
Mynegodd 10% o ymatebwyr bryderon am effaith cyd-gomisiynu ar wasanaethau craidd a ddarperir gan asiantaethau cyngor, sy'n ychwanegol i'r ddarpariaeth o gyngor uniongyrchol. Yn benodol, y meysydd gwaith canlynol – gwirfoddoli, denu mwy o gyllid, datblygu cymunedau lleol, addysg, hyfforddiant a gwaith polisi cymdeithasol. Teimlwyd bod diffyg amlwg o gydnabyddiaeth o waith ataliol wrth ddarparu atebion hirdymor i gyfranwyr eithriad cymdeithasol, ac na ddylai'r fframwaith darparu gwasanaethau oedi'r broses hon.

Lefelau Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol Nawr ac yn y Dyfodol
Cododd nifer o ymatebwyr y broblem o recriwtio staff oherwydd dirywiad difrifol yn nifer yr ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol. Mae'r Cymdeithas y Gyfraith Cymru'n cefnogi'r sefyllfa hon ac

mae'n bosibl y bydd mynediad i wasanaethau ar gyfer pobl hawdd eu niweidio'n cael eu heffeithio. Gofynnwyd bod y papur yn ymdrin â'r pwynt hwn yn benodol.

Marc Ansawdd

Holodd nifer fach o ymatebwyr ynghylch dyfodol y Marc Ansawdd a theimlwyd y dylai'r broses ddilysu hon barhau. Dyma oedd barn gwasanaethau cyngor llywodraeth yn benodol a gofynnwyd am eglurder o ran cynlluniau ar gyfer lefelau anarbenigol y marc ansawdd.

Grwpiau Cleient Penodol

Amlygodd un ymatebydd y lefelau cynyddol o ymfudwyr i Gymru a gofynnodd a ddylai'r cynigion yn y papur ystyried sut gall y grŵp cleient hwn sicrhau mynediad i wasanaethau cyngor cyfreithiol.

Mynegodd sawl ymatebydd farn am faterion nad oeddent yn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r ymgynghoriad. Croesawyd y syniadau hyn ac ystyriwyd y rhain wrth benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o symud y Strategaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yng Nghymru yn ei blaen. Adlewyrchir llawer o'r pwyntiau a godwyd, yn enwedig y rhai mewn perthynas â llywodraeth GCC ac amgylchedd polisi Cymru, yn yr ymatebion uchod.